**ADRODDIAD I'R CABINET**
15 HYDREF 2019

**Aelod Cabinet:** Cynghorydd Ioan Thomas, Aelod Cabinet Cyllid

**Pwnc:** Rhaglen Gyfalaf 2019/20 –
Adolygiad Diwedd Awst (sefyllfa 31 Awst 2019)

**Swyddog Cyswllt:** Ffion Madog Evans, Uwch Reolwr Cyllid

---

**Y penderfyniad a geisir / Pwrpas yr adroddiad**

Derbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd Awst (sefyllfa 31 Awst 2019) o'r rhaglen gyfalaf, a chymeradwyo'r ariannu addasedig a gyflwynir yn rhan 4 o'r adroddiad, sef:

- £8,304,000 defnydd o amryw ffynonellau i ariannu gwir lithriadau o 2018/19
- £5,936,000 cynnydd mewn defnydd o fenthyca
- £3,411,000 cynnydd mewn defnydd o grantiau a chyfraniadau
- £82,000 cynnydd mewn defnydd o dderbyniadau cyfalaf
- £37,000 o leihad mewn defnydd o gyfraniadau refeniw
- Dim newid mewn defnydd o'r gronfa gyfalaf
- £154,000 cynnydd mewn defnydd o gronfeydd adnewyddu ac eraill

---

## 1. Cyflwyniad / Crynodeb

Cyflwynir yr adroddiad technegol yma fel rhan o'r drefn adolygu cyllideb 2019/20. Prif ddiben yr adroddiad yw cyflwyno'r rhaglen gyfalaf ddiwygiedig, a chymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol. Mae crynodeb yn rhan 3 a rhan 4 o'r adroddiad, gyda'r argymhellion yn rhan 7:

Rhan 3: Dadansoddiad fesul Adran o'r rhaglen gyfalaf £87.794m am y 3 blynedd 2019/20 – 2021/22.

Rhan 4: Ffynonellau ariannu'r cynnydd net oddeutu £17.850m ers y gyllideb agoriadol, gyda £8.304m o'r cynnydd oherwydd llithriadau o 2018/19 (adroddwyd eisoes fel rhan o'r adolygiad diwedd blwyddyn ar 21 Mai 2019).

Rhan 6: Manylder grantiau ychwanegol ers sefydlu'r gyllideb wreiddiol.

Y Cabinet sydd wedi eu hawdurdodi i addasu'r rhaglen gyfalaf. Gofynnir am gymeradwyaeth i'r rhaglen arfaethedig (rhan 3) a'i ariannu (rhan 4).

Mae gweddill yr adroddiad er gwybodaeth:
- Atodiad A: Prif newidiadau fesul ffynhonnell ariannu
- Atodiad B: Symudiadau o 2019/20 i 2020/21
- Atodiad C: Gwariant 5 mis cyntaf 2019/20

## 2. Prif Gasgliadau

Y prif gasgliadau sydd yn codi o'r sefyllfa ddiwygiedig yw :

- Fod cynlluniau pendant mewn lle i fuddsoddi tua £39.7m yn 2019/20 ar gynlluniau cyfalaf, gyda £17.2m (43%) ohono wedi'i ariannu trwy ddenu grantiau penodol.

- Mae £7.9m ychwanegol o wariant arfaethedig wedi'i ail-broffilio o 2019/20 i 2020/21, ond ni achoswyd unrhyw golled ariannu i'r Cyngor ble gwelwyd cynlluniau yn llithro.

## 3. Rhaglen Gyfalaf 2019/20 i 2021/22

| ADRAN | ADOLYGIAD DIWEDD AWST | | | | CYNNYDD / (LLEIHAD) ERS Y GYLLIDEB AGORIADOL | ADDASIAD LLITHRIAD | NEWIDIADAU ERAILL |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | CYFANSWM | | | |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Addysg | 10,967 | 6,184 | 1,895 | 19,046 | 5,283 | 84 | 5,199 |
| Amgylchedd | 5,203 | 3,991 | 406 | 9,600 | 8,913 | 4,301 | 4,612 |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 106 | 13 | - | 119 | 106 | 106 | - |
| Cyllid | 713 | 481 | 1,237 | 2,431 | 2,356 | 211 | 2,145 |
| Economi a Chymuned | 1,955 | 880 | 330 | 3,165 | 1,338 | 73 | 1,265 |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant – Uned Tai | 4,611 | 6,250 | 4,300 | 15,161 | 5,277 | 701 | 4,576 |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant – Arall | 1,755 | 2,846 | 2,400 | 7,001 | 5,357 | 93 | 5,264 |
| Plant a Chefnogi Teuluoedd | 1,344 | 1,113 | 250 | 2,707 | 356 | - | 356 |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 11,287 | 4,548 | 2,257 | 18,092 | 5,047 | 591 | 4,456 |
| Ymgynghoriaeth | 685 | 3,539 | 3,410 | 7,634 | 6,684 | - | 6,684 |
| Corfforaethol | 1,123 | 1,030 | 685 | 2,838 | (22,867) | 2,144 | (25,011) |
| **CYFANSWM** | **39,749** | **30,875** | **17,170** | **87,794** | **17,850** | **8,304** | **9,546** |

## 4. Newidiadau i'r Ffynonellau Ariannu

Mae cynnydd o £17.850m yn y gyllideb ar gyfer y rhaglen gyfalaf dair blynedd ers sefyllfa'r gyllideb wreiddiol. Nodir isod y ffynonellau ariannu arfaethedig ar gyfer hyn:

| ARIANNU | ADOLYGIAD DIWEDD AWST | | | | CYNNYDD / (LLEIHAD) ERS Y GYLLIDEB AGORIADOL | ADDASIAD LLITHRIAD | NEWIDIADAU ERAILL |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2019/20 £'000 | 2020/21 £'000 | 2021/22 £'000 | CYFANSWM £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Benthyca gyda chefnogaeth | 7,995 | 7,535 | 6,610 | 22,140 | - | - | - |
| Benthyca Arall | 2,234 | 3,668 | 2,567 | 8,469 | 6,289 | 353 | 5,936 |
| Grantiau a Chyfraniadau | 17,177 | 4,235 | - | 21,412 | 4,753 | 1,342 | 3,411 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 431 | 750 | - | 1,181 | 333 | 251 | 82 |
| Refeniw Adrannol a Chorfforaethol | 1,268 | - | - | 1,268 | (20) | 17 | (37) |
| Cronfa Cyfalaf | 1,442 | 842 | 3,801 | 6,085 | 918 | 918 | - |
| Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill | 9,202 | 13,845 | 4,192 | 27,239 | 5,577 | 5,423 | 154 |
| **CYFANSWM** | **39,749** | **30,875** | **17,170** | **87,794** | **17,850** | **8,304** | **9,546** |

## 5. Benthyca Arall Ychwanegol

Mae £5,353k o'r swm ychwanegol gyferbyn â'r pennawd Benthyca Arall yn y tabl yn rhan 4 uchod yn deillio o'r Cynlluniau Atal Llifogydd. Gyda'r Fenter Benthyca Llywodraeth Leol (MBLlL) mae Llywodraeth Cymru yn ariannu 75% o gost y cynllun trwy ddigolledu costau benthyca'r Cyngor dros gyfnod o 25 mlynedd yn y Grant Cefnogaeth Refeniw (GCR) blynyddol. Mae'r 25% sydd i'w ariannu gan y Cyngor eisoes wedi ei glustnodi fel rhan o'r Cynllun Asedau.

## 6. Grantiau Ychwanegol

Ers sefydlu'r gyllideb wreiddiol, ddiwedd Mawrth, llwyddodd y Cyngor i ddenu'r grantiau canlynol ychwanegol o £3,792k. Mae nifer o addasiadau gan gynnwys lleihad o £387k ar gynllun ddaeth i fewn o dan yr amcan gwreiddiol yn dod â chyfanswm y symudiad i £3,411k (gweler Atodiad A am fwy o fanylion) :

- £1,538k — Grant o'r Gronfa Trafnidiaeth Leol ar gyfer nifer o wahanol gynlluniau gan gynnwys partneriaethau bysiau cynaliadwy a hybiau trafnidiaeth
- £1,327k — Grant Ysgolion Ganrif 21 – cynlluniau Cyflwr ac Addasrwydd a Hwb Cymunedol
- £527k(net) — Grant Cronfa Gofal Canolraddol addasu sefydliadau oedolion
- £165k — Grant Galluogi maes tai gan Lywodraeth Cymru i hwyluso byw'n annibynnol

- £95k Grant pendodol gan Lywodraeth Cymru tuag at Safle Trosglwyddo Gwastraff Caernarfon fel rhan o'r cynllun rhanbarthol

- £73k Grant Dechrau'n Deg Canolfan Plas Ffrancon a chyfraniad Cronfa Gofal Canolraddol tuag at Canolfan Maesgeirchen

- £67k Grant Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer gwedd dau o'r cynllun Llwybr yr Arfordir

## 7. Argymhellion

**Gofynnir i'r Cabinet:**

- **dderbyn y rhaglen gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2019/20 i 2021/22, a**
- **cymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol (rhan 4 uchod).**

## 8. Rhesymau Dros Argymell y Penderfyniad

Rhaid sicrhau trefniadau ariannu priodol ar gyfer cynlluniau'r Cyngor i wario ar gyfalaf, a rhaid i'r Cabinet gymeradwyo'r rhaglen gyfalaf a'r ffynonellau ariannu.

Mater o drefn yw ymgorffori ariannu trwy grant, ond hefyd mae angen delio gyda sefyllfaoedd lle bu newid rhwng blynyddoedd mewn proffil gwario a newid mewn gwerth cyfraniadau a derbyniadau cyfalaf.

Argymhellir yma gamau er mwyn sicrhau ffynonellau ariannu pendant am gynlluniau cyfalaf 2019/20 – 2021/22.

## 9. Ystyriaethau Perthnasol

Materion technegol ynghylch ariannu'r cynlluniau sydd gerbron ac mae ymhlygiadau a dadleuon eisoes wedi'u cyfarch wrth fabwysiadu'r cynlluniau cyfalaf unigol.

## 10. Camau Nesaf ac Amserlen

Gweithredu ar yr argymhellion i ariannu'r rhaglen.

**Barn yr Aelod Lleol**
Dim yn  berthnasol.

**Barn y Swyddogion Statudol**

**Y Swyddog Monitro:**
Dim sylwadau i’w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**
Rwyf wedi cydweithio gyda’r Aelod Cabinet i baratoi’r adroddiad yma ac yn cadarnhau’r cynnwys.

**Atodiadau**
Atodiadau A, B ac C

----------------------------

**Prif Newidiadau Fesul Ffynhonnell Ariannu**

Gweler isod y cynlluniau perthnasol sydd yn achosi’r prif newidiadau i’r ffynonellau ariannu ers y gyllideb wreiddiol:

| | 2019/20<br>£’000 | 2020/21-2021/22<br>£’000 |
|---|---|---|
| **Grantiau a Chyfraniadau** | | |
| • Grant Ysgolion Ganrif 21 – cynlluniau Cyflwr ac Addasrwydd a Hwb Cymunedol *(Adran Addysg).* | 1,327 | |
| • Grant i ariannu cynlluniau Dechrau'n Deg yng Nghanolfan Plas Ffrancon a chyfraniad o Gronfa Gofal Canolraddol tuag at Canolfan Maesgeirchen *(Adran Plant a Theuluoedd).* | 73 | |
| • Cronfa Gofal Canolraddol (ICF) – grant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer addasiadau sefydliadau i ddarparu gwelyau dementia ac arbenigol yn ogystal â hwyluso gweithio ar y cyd ag asiantaethau eraill *(Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant).* | 952 | (425) |
| • Grant penodol gan Lywodraeth Cymru i uwchraddio Safle Trosglwyddo Gwastraff Caernarfon ar gyfer gwastraff sy’n rhan o’r cynllun rhanbarthol *(Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol).* | 95 | |
| • Grant o’r Gronfa Trafnidiaeth Leol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer nifer o wahanol gynlluniau gan gynnwys partneriaethau bysiau cynaliadwy a hybiau trafnidiaeth *(Adran Amgylchedd).* | 1,538 | |
| • Grant gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer gwedd dau o gynllun Llwybr yr Arfordir *(Adran Amgylchedd).* | 67 | |
| • Grant Galluogi maes tai gan Lywodraeth Cymru i hwyluso byw’n annibynnol *(Uned Tai, Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant).* | 165 | |
| • Cynllun Atal Llifogydd Llanberis – costau is na’r rhagamcan. *(Adran Ymgynghoriaeth).* | (387) | |
| **Benthyciadau Arall** | | |
| • Menter Benthyca Llywodraeth Leol yn cyfrannu tuag at ariannu nifer o gynlluniau Atal Llifogydd *(Adran Ymgynghoriaeth).* | 173 | 5,180 |
| • Cerbydau Ailgylchu a Bwrdeistrefol (*Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol).* | 585 | |

| | | |
|---|---|---|
| **Derbyniadau Cyfalaf** | | |
| • Cerbydau maes Oedolion *(Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant).* | 22 | |
| • Uwchraddio Depo Glan y Don *(Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol).* | 54 | |
| **Refeniw Adrannol** | | |
| • Cyfraniad tuag at system technoleg gwybodaeth i'r maes Cynllunio *(Adran Amgylchedd).* | 62 | |
| • Cynllun Atal Llifogydd Llanberis – costau is na'r rhagamcan. *(Adran Ymgynghoriaeth).* | (105) | |
| **Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill** | | |
| • Gwaith uwchraddio depos Priffyrdd a Bwrdeistrefol *(Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol).* | 175 | |
| • Addasiad i'r rhagamcan Adnewyddu Cerbydau nifer o unedau o fewn Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol yn ogystal ag adrannau eraill (*Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol ac eraill).* | (241) | |
| • Cynlluniau yn y maes Rheoli Gwastraff e.e. sgipiau, cartgylchu *(Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol).* | 114 | 10 |
| • Peiriannau Talu ac Arddangos Meysydd Parcio *(Adran Amgylchedd).* | 44 | |
| • Cyfraniad tuag at system technoleg gwybodaeth i'r maes Cynllunio *(Adran Amgylchedd).* | 50 | |

----------------------------

**ATODIAD B**

**Ail-broffilio Cyllideb - Prif Gynlluniau**

Gweler isod y prif gynlluniau sydd wedi eu hail-broffilio ers y gyllideb wreiddiol:

| | **2019/20 £'000** | **2020/21 £'000** |
|---|---|---|
| Cynlluniau Ysgolion (Ganrif 21 ac Eraill) *(Adran Addysg)* | (1,318) | 1,318 |
| Cynlluniau sefydliadau Oedolion *(Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant)* | (975) | 975 |
| Hwb Iechyd a Gofal Penygroes *(Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant)* | (250) | 250 |
| Cynllun i Ad-leoli Gwasanaeth Dydd Segontiwm *(Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant)* | (171) | 171 |
| Cynlluniau Atal Llifogydd *(Adran Ymgynghoriaeth)* | (181) | 181 |
| Adnewyddu Cerbydau *(Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol)* | 142 | (142) |
| Cynlluniau Trafnidiaeth *(Adran Amgylchedd)* | (379) | 379 |
| Cynlluniau Addasiadau, Cynnal a Chadw ayyb Eiddo'r Cyngor *(Uned Eiddo, Adran Amgylchedd)* | (2,176) | 2,176 |
| Cynlluniau Rheoli Carbon y Cyngor *(Uned Eiddo, Adran Amgylchedd)* | (1,099) | 1,099 |
| Cynlluniau Strategaeth Tai *(Uned Tai, Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant)* | (1,450) | 1,450 |

**Noder:**
Ni fydd yr ail-broffilio uchod yn golygu unrhyw golled grant.
Mae amrywiol resymau dilys tu ôl i'r ail-broffilio mewn sawl achos, ond gall yr oedi cyn gweithredu'r cynlluniau yma olygu bod gwasanaethau yn ymdopi'n hirach gyda'r asedau presennol heb eu gwella.

---------------------------

**ATODIAD C**

**Gwariant Cyfalaf 5 Mis Cyntaf 2019/20**

| **CRYNODEB** | **RHAGLEN GYFALAF BLWYDDYN LAWN (adolygwyd Awst) 2019/20** | **GWIR WARIANT 5 MIS HYD AT 31/08/2019** |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| Addysg | 10,967 | 2,270 |
| Amgylchedd | 5,203 | 384 |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 106 | - |
| Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth) | 713 | 9 |
| Economi a Chymuned | 1,955 | 81 |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant – Uned Tai | 4,611 | 1,786 |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant – Arall | 1,755 | 106 |
| Plant a Chefnogi Teuluoedd | 1,344 | 161 |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 11,287 | 2,563 |
| Ymgynghoriaeth | 685 | 250 |
| Corfforaethol | 1,123 | - |
| **CYFANSWM** | **39,749** | **7,610** |

**Noder:**
Mae’r gyfran sydd wedi’i wario eleni (19%) yn is na’r sefyllfa adeg yma'r llynedd (gwariant 5 mis 2018/19 yn 21%).